

IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU
1 MEDI 2021 (11.55AM)

Cofnodion cyfarfod Is-bwyllgor Trwyddedu Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd dros y we ddydd Mercher, 1 Medi 2021.

Yn bresennol: Y Cynghorydd Tony Sharps (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr: Ron Davies a Ralph Small

Swyddogion Cyngor Sir y Fflint:

Swyddog Trwyddedu (James Lowe) a Swyddog Gwasanaethau Democraataidd (Sharon Thomas)

Swyddog Cyfreithiol

Cyfreithiwr (Matt Powell)

Ymgeisydd

1. YMDDIHEURIADAU

Dim. Cymerodd y Cadeirydd y cyfle i ymddiheuro i'r ymgeisydd am yr oedi ar ddechrau'r cyfarfod.

2. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Dim.

3. DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) 1985 – YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD:

Eithrio'r wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem ganlynol gan yr ystyrir ei bod yn cynnwys gwybodaeth wedi'i heithrio yn rhinwedd paragraffau 12 ac 13 Adran 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

4. GWRANDAWIAD A PHENDERFYNIAD AR Y CAIS

Croesawodd y Cadeirydd yr ymgeisydd a chyflwynodd aelodau'r panel. Eglurodd y drefn ar gyfer y gwrandawriad, gan gynnwys sut y byddai'r cais yn cael ei benderfynu.

5. YMDDYGIAD A DEDFRYDAU DEILIAD TRWYDDED CERBYD HURIO PREIFAT / CERBYD HACNI (AR Y CYD)

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu yr adroddiad i ystyried ymddygiad gyrrwr Cerbyd Hurio Preifat/Cerbyd Hacni (ar y cyd) mewn perthynas ag euogfarnau diweddar. Tynnodd sylw at yr adrannau perthnasol o ganllawiau mabwysiedig y Cyngor ar ymdriniaeth ag euogfarnau, rhybuddion a chosbau eraill wedi'u cofnodi fel yr amlinellir yn yr adroddiad. Rhoddwyd gwybod i'r panel bod yr ymgeisydd wedi derbyn rhybudd am drosedd ychydig o flynyddoedd

ynghynt (2011), a gafodd, yn unol â'r canllawiau, ei gymryd i ystyriaeth pan gyflwynodd yr ymgeisydd gais am drwydded ac ni chafodd effaith ar gyflwyno'r drwydded bryd hynny.

Mewn ymateb i'r cwestiynau gan y panel, darparodd yr ymgeisydd wybodaeth am yr euogfarnau diweddar a chefnidir y rhybudd blaenorol a ddisgrifiodd fel achos unigol. Fel y nodir yn ei sylwadau ysgrifenedig, dywedodd yr ymgeisydd ei fod yn edifarhau'r euogfarnau diweddar ac eglurodd ei fod yn rhannol o ganlyniad i gyd-ddigwyddiad anffodus honedig. Dywedodd ei fod yn deall difrifoldeb y troseddau ac eglurodd ei amgylchiadau personol.

Pan ofynnodd y Cadeirydd i'r ymgeisydd a oedd o'n dymuno gwneud unrhyw sylwadau eraill, dywedodd fod ei ymddygiad a arweiniodd at yr euogfarn diweddar allan o gymeriad iddo.

Pan oedd y Cadeirydd yn fodlon bod yr holl gwestiynau perthnasol wedi'u gofyn, gofynnodd i'r ymgeisydd a'r Swyddog Trwyddedu adael y cyfarfod i alluogi'r panel i ddod i benderfyniad.

5.1 Penderfynu ar y Cais

I bennu'r cais, rhoddodd y panel ystyriaeth i'r holl sylwadau llafar ac ysgrifenedig, ynghyd â Chanllaw'r Cyngor ar Ymdriniaeth ag Euogfarnau, Rhybuddion, Cyhuddiadau Troseddol neu gosbau eraill a gofnodir. Nid oedd y panel yn fodlon – ar ôl pwysu a mesur – bod yr ymgeisydd yn unigolyn addas a phriodol i gael Trwydded Yrru Cerbyd Hurio Preifat/Hacni (ar y cyd) a phenderfynwyd y dylid ei dirymu.

Gwahoddwyd y Swyddog Trwyddedu a'r ymgeisydd yn ôl er mwyn ailgynnull y cyfarfod.

5.2 Penderfyniad

Cadarnhaodd y Cyfreithiwr y penderfyniad (isod) a chyn cau'r cyfarfod, cadarnhaodd y Cadeirydd hawl yr ymgeisydd i apelio.

PENDERFYNWYD:

Ar ôl ystyried cynnwys yr adroddiad hwn, y cofnod o euogfarnau, y sylwadau a wnaed gan ddeiliad y drwydded, gan gynnwys ei lythyr dyddiedig 19 Awst 2021, ac ar ôl ystyried y Canllawiau ar Ymdriniaeth ag Euogfarnau, penderfynodd yr Is-bwyllgor, yn ôl pwysau tebygolrwydd, nad yw'r unigolyn yn gymwys ac yn addas i ddal Trwydded Yrru Cerbyd Hurio/preifat Hacni (ar y cyd) ac y dylid dirymu ei drwydded. Nid yw'r Is-bwyllgor wedi cymryd y Rhybudd yn 2011 i ystyriaeth.

(Dechreuodd y cyfarfod am 11.55am a gorffennodd am 12.40pm)

.....
Y Cadeirydd